



GRŴP PYSGODFEYDD A GWYDDORAU CADWRAETH

CYLCHLYTHYR

RHIFYN 1 RHAGFYR 2012

Croeso i rifyn cyntaf cylchlythyr Grŵp Pysgodfeydd a Gwyddorau Cadwraeth.

Gyda dim ond 10% o bysgotwyr yn gweithio ar y môr, mae diwydiant pysgota Cymru yn bennaf yn llynges sy'n gweithio gyda'r glannau. Mae felly'n ddibynnol ar gynnaladwydd ei stociau lleol.

Ychydig o wybodaeth sydd ar gael am ddsbarthiad, cyflenwad a bioleg y rhywogaeth a dargedir. Mae ei angen ar gyfer cynlluniau rheoli cynladwy.

Amcan y prosiect hwn yw darparu llwyfan i wyddonwyr a physgotwyr i weithio gyda'i gilydd i gasglu data sy'n angenrheidiol i ddiogelu dyfodol diwydiant pysgota Cymru.

Bydd y prosiect hefyd yn cydweithio â Llywodraeth Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, CEFAS a Prifysgol

NEWYDDION DIWEDDARAF:




PROFION TADOLAETH I GIMYCHIAID

A yw cimychiaid benywaidd Ewrop mor drythyll â'u cymheiriaid Americanaidd?

Cychwynnodd prosiect peilot i gasglu wyau cimychiaid ar gyfer profion genetig i weld os oes gan gimychiaid Ewrop dadolaeth luosog.



Llun – Benyw yn llawn wyau *H. gammarus* (Harriet Salomonsen)



Llun - Sled y camera yn barod i'w ddefnyddio (H. Hinz)

MAPIO CYNEFINOEDD PYSGODFEYDD Y GRAGEN FYLCHOG

Gwneir arolygon cynefin y gragen fylchog gan bysgotwyr a gwyddonwyr yn defnyddio system gamera amlbwrpas tanddwr, newydd i lenwi bylchau gwybodaeth ym Mae Ceredigion.

LLITHRYNNAU I DYNRWYDI CREGYN BYLCHOG

A ellir gwella tynrwydi cregyn bylchog i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd? Cynhaliwyd profion môr ar lithrynnau wrth dynrwydi New Haven i brofi eu perfformiad masnachol.



Llun - Lithrynnau dur wrth dynrwydi cregyn bylchog (Harriet Salomonsen)



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

CANFOD MWY :

fisheries-conservation.bangor.ac.uk

E-bost: fisheries@bangor.ac.uk

Ysgol Gwyddorau Eigion
Prifysgol Bangor, Porthaethwy, Ynys Môn, LL59 5AB



Y Gronfa Pysgodfeydd Ewropeaidd:
Buddsoddi mewn Pysgodfeydd Cynaliadwy
European Fisheries Fund: Investing in
Sustainable Fisheries



RHAGAIR



Mae Cymdeithas Pysgotwyr Cymru Cyf (WFA-CPC) yn falch o gael eu cysylltu ag Ysgol Gwyddorau Eigion Bangor a Phrosiect EFF "Defnydd Cynladwy o Adnoddau Pysgodfeydd yn Nyfroedd Cymru". Mae'r arolygon gwyddonol a amlinellwyd ym mhecynnau gwaith y Prosiect yn angenrheidiol i roi gwybodaeth am reoli pysgodfeydd ac amgylchedd morol Cymru yn y dyfodol.

Yn y cyfnod ansicr hwn bydd tystiolaeth wyddonol yn sylfaen y gallwn gydweithio arno i ddiogelu dyfodol ein diwydiant. Mae'r WFA-CPC yn cefnogi Ysgol Gwyddorau Eigion Bangor yn y prosiect hwn, a'i amcanion gan gynnwys y dulliau arloesol a datblygir i gasglu data gwerthfawr ar amryw o rywogaethau sy'n bwysig i Gymru. Mae hyn yn cynnwys pysgotwyr yn cymryd rhan wrth gasglu data i asesu'r stoc gyda dulliau o bell sy'n cael y data angenrheidiol heb amharu ar eu diwrnod gwaith. Bydd y gwaith hwn yn garreg sylfaen i reoli adnoddau morol Cymru yn llwyddiannus - maes a fu'n ddiffygiol o ran data yng Nghymru.

Byddai'r WFA-CPC yn annog y diwydiant yn gryf i gymryd rhan yn y cyfle unigryw hwn i gyfrannu'n weithredol at set werthfawr eithriadol o ddata a fydd yn y pendraw yn eiddo i'r diwydiant ac yr ychwanegir ato y tu hwnt i gyfnod y prosiect. Mae gan y prosiect ei wefan ei hunan (fisheries-conservation.bangor.ac.uk) sy'n llawn gwybodaeth, fideos ac adroddiadau defnyddiol wedi eu creu gan y wyddoniaeth. Gall pysgotwyr gofrestru ar gyfer derbyn e-bost yn rhoi gwybod am newyddion ac adroddiadau fel y maent yn codi.

Hoffem ddymuno pob llwyddiant i Mike Kaiser a Thîm Prosiect Ysgol Gwyddorau Eigion Bangor gyda'r fenter hon.

Jim Evans




PYSGODFEYDD Y GRAGEN FYLCHOG

LLITHRYNNAU I DYNRWYDI'R GRAGEN FYLCHOG

Gall tynrwydi i gasglu'r gragen fylchog greu niwed i rywogaethau a chynefinoedd nad ydynt wedi eu targedu. Ar wahân i'r bar danheddog, mae'r bag bol yn achosi niwed wrth gael ei dynnu ar hyd gwely'r môr. Datblygodd Ewout Costerus o Cyclone Marine Ltd a Dr Hilmar Hinz drwy'r prosiect SEACAMS atebion posibl i liniaru effeithiau'r bag bol. Wrth gydio setiau o lithrynnau dur i ochr isaf y bag mae'n ei godi'n glir o'r gwaelod, ac o bosib yn lleihau niwed i'r ffawna dyfnforol. Manteision posibl ychwanegol yw traul gostyngol ar y bagiau bol a lleihad yn y defnydd o danwydd oherwydd y llusgiad is.

Gwnaed y set gyntaf o brofion môr i brofi perfformiad masnachol y cydfannau diolch i Mark Roberts, Len Walters a'u criwiau. Yn y profion hyn cymharwyd y tynrwydi safonol a'r tynrwydi â'r lithrynnau. Roedd y data a gasglwyd yn cynnwys cyfanswm a maint y cregyn bylchog a ddaliwyd, yr hyn oedd yn y sgil ddalfa a thyndra'r ceblau. Tra roedd y profion cychwynnol hyn yn llwyddiannus bydd angen profion pellach. Os ydych am gymryd rhan yn y profion nesaf, dowch i gysylltiad. Bydd canlyniadau'r profion hyn ar gael ar ein gwefan yn fuan.



PYSGODFEYDD Y GRAGEN FYLCHOG

AROLYCON SLED CAMERA TANFOR PYSGOTWYR

Mae gwybodaeth am gynefin pysgodfeydd yn aml yn anghyflawn a gall greu gwrthdaro buddiannau â rhanddeiliaid morol eraill. I gynyddu'n gwybodaeth am gynefinoedd mae'n hanfodol fod mwy o wybodaeth yn cael ei gasglu gydag ymroddiad y diwydiant. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu system fideo danfor y gellir ei ddefnyddio o gychod bach gan bysgotwyr. Cynhaliwyd y prawf cyntaf gyda'r camera newydd wedi'i fowntio ar sled fach ym Mae Ceredigion. Arolygwyd 16 lleoliad hyd yn hyn diolch i gymorth gan Len Walters yn cau rhai o'r bylchau yn ein gwybodaeth.

AROLWG CYNEFIN AC ASESIAD STOC

Cyflawnwyd yn llwyddiannus yr asesiad stoc ac arolygon monitro cynefin cyntaf y gragen fylchog. Arolygwyd ardaloedd o Fae Lerpwl hyd Fae Ceredigion. Mae'r canlyniadau cychwynnol o asesiad stoc y gragen fylchog a wnaed ym Mehefin bellach ar gael yn Adroddiad rhif 18 (gellir ei lwytho i lawr ar ein gwefan). Bydd data arolwg y cynefinoedd sy'n cael eu prosesu ar hyn o bryd ar gael ar y wefan unwaith y bydd wedi ei gwblhau.

SUT I GYMRYD RHAN:

Os ydych chi am gymryd rhan yn unrhyw un o'r gweithgareddau

1. Cynnal profion offer llithrynnau i ostwng y sgil ddalfa a chynyddu effeithiolrwydd y tynrwydi
2. Cynnal arolygon cynefin gan ddefnyddio ein sled camera tanfor newydd
3. Casglu data i asesu stoc y gragen fylchog/ dwyster pysgota - Cynllun y Bag Coch

Cysylltwch, os gwelwch yn dda â : **Dr Gwladys Lambert** (g.lambert@bangor.ac.uk).

Cynhaliwyd sawl cyfarfod cychwynnol i gyflwyno'n hunain, y gwaith rydym yn ei gynllunio, a sut y gellwch chi fod â rhan ynddo. Dylem gael cyfarfod am Fae Ceredigion yn fuan.



PYSGODFEYDD CYMRU GYFAN

AROLYCON PYSGOTWYR

Beth ydym yn ei wneud?

Rydym yn cynllunio cynnal arolwg pysgotwyr i ddysgu am batrymau pysgota ddoe a heddiw yn ogystal â dysgu am ecoleg lleol rhywogaethau a dargedwyd.

Pam ydym yn gwneud hyn?

Dylai'r data a gasglwyd gynnig man cychwyn i asesu gweithgaredd gofodol pysgota o amgylch Cymru a dylai roi mwy o fewnwelediad i ecoleg lleol rhywogaethau a dargedwyd. Mae union faint y pysgodfeydd, er enghraifft, yn bwysig i gynllunio'r asesiadau stoc priodol gyda'r diwydiant. Yn ychwanegol, dylai canlyniadau'r holiadur ddarparu i'r diwydiant weithgaredd rhestr drwy Gymru gyfan ac amlygu pwysigrwydd y gwahanol bysgodfeydd.

SUT I GYMRYD RHAN:

Cynhelir arolygon ar draws Cymru gan ddechrau ym mis Ionawr a pharhau am ychydig fisoedd tan y gwanwyn. Bydd yr amserau a'r dyddiadau ar gael ar y wefan.

Anfonwch e-bost at fisheries@bangor.ac.uk gyda'r teitl **Arolwg y Pysgotwyr** os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os ydych am gael rhagor o wybodaeth.

CEWYLL

PROFION TADOLAETH I GIMYCHIAID

Beth ydym yn ei wneud?

Rydym ar hyn o bryd yn casglu samplau meinwe o fenywod llawn wyau ynghyd â samplau o'u hwyau. Byddwn yn gwneud profion genetig i ail-greu tadolaethau ac i amcangyfrif y nifer o wrywod sy'n cyfrannu at ffrwythloni'r menywod mewn ardal. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i ni weld os yw'r menywod yn paru â mwy nag un gwryw – tadolaeth luosog.

Rydym yn gobeithio cymharu'r nifer o wrywod sy'n ffrwythloni'r menywod o ardaloedd sy'n cael eu pysgota'n fasnachol â'r nifer o wrywod sy'n ffrwythloni'r menywod mewn ardaloedd sydd wedi eu cau i gewyll masnachol, er enghraifft Ynys Wair.

Pam rydym yn gwneud hyn?

Mae deall ymddygiad atgenhedlu ac ymddygiad paru rhywogaeth yn hanfodol i benderfyniadau rheoli pysgodfeydd.

Mae rhicio'r menywod ar siâp V yn amddiffyn y rhai sy'n atgenhedlu. Fodd bynnag gall hefyd arwain at ragfarn gyda rhif uwch o gimychiaid gwryw yn cael eu dal.

Bydd yr astudiaeth hon yn ein galluogi i ddeall os yw rhicio ar siâp V yn newid ymddygiad paru'r cimychiaid pan fydd yn newid y gymhareb o fenywod mawr i wrywod mawr.

Yn y dyfodol...

Astudiaeth beilot yw hon yn defnyddio samplau a gasglwyd o Benrhyn Llŷn. Gobeithiwn gael y canlyniadau yn y Flwyddyn Newydd. Byddwn wedyn yn ei roi ar waith fesul cam ledled Cymru yng ngwanwyn a haf 2013

Camera ar fwrdd llong yn monitro cynnwys y ddalfa

Yn draddodiadol mae angen gwylwyr ar fwrdd llong i gynnal asesiadau o'r stoc i bysgodfeydd cewyll. Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio system camera ar fwrdd llong i gasglu data'r ddalfa am nad yw cael gwylwyr ar fwrdd llong yn aml yn ymarferol ac nad yw hynny ddim ond yn cynnig ymdriniaeth amserol a gofodol cyfyngedig. Dylai'r system camera a brofwyd ddarparu gwybodaeth i ni ar y ddalfa, dalfa bychan a'r gymhareb o gimychiaid gwryw a benyw mewn cewyll.



Cyfarfodydd ar ddod:

Ionawr 2013—Cyfarfod Grŵp Ymgynghorol y Gwyddorau

SUT I GYMRYD RHAN:

Os ydych am gymryd rhan mewn :

1. Darparu menywod llawn wyau ar gyfer casglu ei hwyau
2. Gwirfoddoli i gymryd rhan yn y monitro camera

Cysylltwch, os gwelwch yn dda, â Dr Natalie Hold





DYMA'R TÎM ...



Yr Athro Michel Kaiser



Athro yn yr Ysgol
Gwyddorau Eigion, yn
arbenigo mewn ecoleg dyfnforol
a gwyddorau pysgodfeydd.

E-bost:
michel.kaiser@bangor.ac.uk
Ffôn: 01248 383751



Dr Lewis Le Vay



Uwch ddarlithydd yn yr
Ysgol Gwyddorau Eigion, yn
arbenigo mewn acwafeithrin a
gwyddorau pysgodfeydd.

E-bost: l.levay@bangor.ac.uk
Ffôn: 01248 388115



Dr Ian McCarthy



Uwch ddarlithydd
mewn bioleg pysgod, yn
arbenigo mewn ecoleg
ffisiolegol ac ymddygiadol.

E-bost:
i.mccarthy@bangor.ac.uk
Ffôn: 01248 382862



Dr Jan Geert Hiddink



Uwch ddarlithydd yn yr
Ysgol Gwyddorau
Eigion, yn arbenigo mewn
ecoleg dyfnforol.

E-bost: j.hiddink@bangor.ac.uk
Ffôn: 01248 382864



Dr Hilmar Hinz



Ymchwilydd a Rheolwr y
Prosiect, yn arbenigo
mewn ecoleg
cymunedau dyfnforol a
gwyddoniaeth pysgodfeydd.

E-bost: h.hinz@bangor.ac.uk
Ffôn: 01248 388124



Dr Lee Murray



Ymchwilydd mewn
gwyddoniaeth pysgodfeydd. Yn
cynghori Llywodraeth Ynys
Manaw ar hyn o bryd. Yn
gweithio gyda'r diwydiant cregyn
bylchog.

E-bost: l.murray@bangor.ac.uk
Ffôn: 01248 388390




Dr Natalie Hold



Ymchwilydd mewn
ecoleg atgenhedlu a geneteg.
Gweithio gyda diwydiant cewyll
Cymru.

E-bost: n.hold@bangor.ac.uk
Ffôn: 01248 388425



Dr Jodie Haig



Ymchwilydd mewn
bywydeg ac ecoleg anifeiliaid
di-asgwrn-cefn. Gweithio gyda
diwydiant cewyll Cymru.

E-bost: j.haig@bangor.ac.uk
Ffôn: 01248 382606



DYMA'R TÎM ...



Dr Gwladys Lambert



Ymchwilydd mewn gwyddoniaeth pysgodfeydd. Gweithio gyda diwydiant pysgota cregyn bylchog Cymru.

E-bost: g.lambert@bangor.ac.uk

Ffôn: 01248 388472



Dr Giulia Cambiè



Ymchwilydd mewn gwyddoniaeth ac economeg pysgodfeydd. Gweithio ar bysgod esgyll, gyda'r diwydiant a physgotwyr môr sy'n hamddena.

E-bost: g.cambie@bangor.ac.uk

Ffôn: 01248 382615



Dr Peter Duncan



Ymchwilydd mewn bywydeg pysgodfeydd. Yn cyngori Llywodraeth Ynys Manaw ar hyn o bryd. Gweithio gyda physgodfeydd cramenogion.

E-bost: p.duncan@bangor.ac.uk

Ffôn: 01624 685840



Fikret Ondes



Ymchwilydd PhD yn edrych ar ecoleg y cranc coch yn Ynys Manaw i gael gwybodaeth er mwyn rheoli cynladwy.

E-bost: elpe39@bangor.ac.uk

Ffôn: 07624 341472



Claire Szostek



Ymchwilydd PhD yn edrych ar bysgodfa cregyn bylchog y Sianel. Gweithio'n agos gyda diwydiant pysgota cregyn bylchog y DU.

E-bost: c.szostek@bangor.ac.uk

Ffôn: 01248 388232



Harriet Salomonsen



Cynorthwydd ymchwil i'r tîm. Cynorthwyo i gasglu a dadansoddi data.

E-bost: h.salomonsen@bangor.ac.uk

Ffôn: 01248 383976



Julia Pantin



Cynorthwydd ymchwil i'r tîm. Cynorthwyo i gasglu a dadansoddi data.

E-bost: j.pantin@bangor.ac.uk

Ffôn: 01248 382607



Anwen Williams



Uwch swyddog clerigol. Gwaith cyllid a gweinyddu'r prosiect.

E-bost: anwen.williams@bangor.ac.uk

Ffôn: 01248 383177